

Dylunio Gwyrdd Tŷ Gwyrdd Green Design

Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni am gyngor ar sut i arbed ynni neu greu ynni yn y cartref.
Contact the Energy Saving Trust for tips on saving energy or advice on how to generate energy in your own home.

To Gwyrdd

Casglu a ffltro dŵr glaw i fflysio'r toiledau a rhedeg y system wresogi.

Green Roof

Collects and filters rainwater to flush the toilets and run the heating system.

Pwmp Gwres Daear

Defnyddio gwres o 30 metr islaw wyneb y ddaear i wresogi'r rheiddiaduron.

Ground Heat Pump

Takes heat from 30 metres below the ground to heat the radiators.

Cynhesydd-dŵr Solar

Troi gwres o olau'r haul yn ddŵr poeth ar gyfer y tŷ.

Solar Water Heater

Converts heat from the sun into hot water for the house.

Waliau Allanol

Wedi'u llenwi â gwlan a phapur newydd er mwyn cadw gwres yn y tŷ. Mae'r deunyddiau yma wedi eu trin fel nad ydynt yn fflamadwy nac yn denu pryfed.

External Walls

Filled with sheep's wool and newspaper to keep the heat inside the house. These materials have been treated for fire and insect resistance.

Deunyddiau Lleol


Mae'r tŷ wedi'i adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau lleol, wedi'u hailgylchu neu eu haildefnyddio.

Local Materials

The house is built from locally sourced, recycled or re-used materials.

Adeiladwyd y Tŷ Gwyrdd yn 2000 ar gost o £120,000 a cafodd ei gynllunio i fod yn dŷ carbon niwtral. Mae'r tŷ yn gwneud defnydd arbennig o ffynonellau golau a gwres naturiol a cynlluniwyd nifer o'i nodweddion er mwyn arbed ynni ac arian.

Built in the year 2000 for the cost of £120,000, Tŷ Gwyrdd was designed to be a carbon neutral house. The house makes exceptional use of natural sources of heat and light and many of its features are designed to save energy and money.



Panelli Solar

Troi golau'r haul yn drydan. Crëir digon o drydan i oleuo'r tŷ i gyd.

Solar Panels

Convert sunlight into electricity. Enough is made to power the lighting for the house.

Awyrell a Bleind

Rheoli gwres a lefelau golau.

Air Vents & Blinds

Control heat and light levels.

Ffenestri a'r Llawr

Mae'r ffenestri deheuol yn cynnig goleuni a gwres drwy'r dydd tra bod y llawr llechi tywyll yn amsugno ac yn storio'r gwres.

Windows & Flooring

The south facing windows provide enough light and heat throughout the day, while the dark slate flooring absorbs and stores the heat.

Gardd Fawr

Tyfu ffrwythau a llysiau ffres. Mae gofod gwyrdd a phlanhigion cynhenid yn denu bywyd gwylt i'r ardd, sydd o fudd i fioamrywiaeth lleol.

Large Garden

For growing fresh fruit and vegetables. Green spaces and native plants encourage wildlife into the garden, giving a helping hand to local biodiversity.

Gwresogydd Pelenni Blawd Llif

Gwres ychwanegol pan mae hi'n oer iawn. Mae'n llosgi blawd llif wedi'i ailgylchu o ffynhonnell gynaliadwy. Dim ond unwaith y mis y mae'n rhaid gwacau'r llestr llwch!

Sawdust Pellet Heater

Provides extra heat during very cold times. It burns recycled sawdust from a sustainable source. The ash tray only needs emptying once a month!

Deunyddiau Tŷ Gwyrdd Materials

Cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni am gyngor ar sut i arbed ynni neu greu ynni yn y cartref.
Contact the Energy Saving Trust for tips on saving energy or advice on how to generate energy in your own home.

To Gwyrdd

Mae bywlysiau a tho alwminiwm yn ffiltro a chasglu dŵr glaw cyn ei gyfeirio at danc storio. Mae'r to wedi'i wneud o alwminiwm wedi'i ailgylchu, sy'n defnyddio 75% yn llai o ynni i'w gynhyrchu nag alwminiwm newydd. Mae'r planhigion hefyd yn ardal werdd ar gyfer bywyd gwylt ac yn gymorth i inswleiddio'r tŷ.

Green Roof

Sedum plants and an aluminium roof filter and collect rainwater before it is diverted to a storage tank. The roof is made from recycled aluminium, which uses 75% less energy to make compared to producing new aluminium. The plants also provide a green area for wildlife and help to insulate the house.

Inswleiddio

Mae'r waliau ceudod wedi'u llenwi â gwlan defaid a phapur newydd wedi'i ailgylchu, sy'n gymorth i gadw'r tŷ'n glyd.

Insulation

The cavity walls are filled with sheep's wool and recycled newspaper - which helps to keep the house cosy.

Waliau


Wedi'u gorchuddio ag estyll derw Cymreig cynaliadwy a rendrad leim. Defnyddiwyd rendrad leim yn lle concrid yn draddodiadol; mae'n defnyddio 20% yn llai o ynni i'w gynhyrchu ac yn galluogi i adeiladau anadlu - sy'n lleihau cyddwysiad.

Walls

Sustainable Welsh oak boards and lime render cover the walls. Lime render was traditionally used instead of concrete, it uses 20% less energy to make and allows buildings to breathe - reducing condensation.

Mae'r rhan fwyaf o ddeunyddiau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu'r tŷ hwn yn dod o ffynonellau lleol, wedi'u hailgylchu neu wedi'u haildefnyddio. Mae hyn yn arbed ynni, yn cefnogi busnesau lleol ac yn cadw allyriadau carbon yn isel. Adeiladwyd y Tŷ Gwyrdd yn 2000. Dros 60 mlynedd bydd yn cynhyrchu oddeutu 8 tonnall yn llai o allyriadau carbon na chartref cyffredin yn yr un cyfnod.

Most of the materials used in the construction of this house are locally sourced, recycled or re-used. This saves energy, supports local businesses and keeps carbon emissions low. Tŷ Gwyrdd, was built in the year 2000. Over 60 years, the house will produce around 8 tonnes less carbon emissions than a typical home of its time.



To a Llawr Llechi

Defnyddiwyd llechi Cymreig ar y to - llechi a ddefnyddiwyd yn wreiddiol mewn ystyby yn Y Fenni. Mae llechi'r llawr yn llechi tywyll o Aberhonddu. Mae'r lliw tywyll yn gymorth i'r llechen amsugno gwres drwy'r dydd, gan gadw'r tŷ'n gynnes drwy'r min nos.

Slate Roof & Floor Tiles

Reclaimed Welsh slate is used on the roof - they were previously used at a hospital in Abergavenny. The floor tiles are made up of dark slate from Brecon. The dark colour helps the slate absorb heat during the day, keeping the house warm into the evening.

Ffrâm Bren

Wedi'i gwneud o dderw gwyrdd a dorwyd yng nghanolbarth Cymru o ffynhonnell gynaliadwy. Mae'r uniadau eilaidd wedi'u gwneud o binwydd Douglas a dyfir yn Sain Ffagan.

Timber Frame

Made from green oak felled in mid Wales from a sustainable source. The secondary joints are made from Douglas fir grown at St Fagans.

Briciau Clai

Mae'r pridd islaw'r tŷ wedi'i wneud o glai dwys. Pan gloddiwyd y seiliau defnyddiwyd y pridd i wneud briciau clai gafodd eu gwasgu ar y safle a'u defnyddio i adeiladu rhai o'r waliau mewnol.

Clay Bricks

The soil beneath the house is a heavy clay. When the foundations were dug the soil was used to make clay bricks that were pressed on site and used to build some of the internal walls.